

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Yr Adran Ddeintyddol, Canolfan  
Adnoddau Blaenafon

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin  
Bevan

Dyddiad arolygu: 29 Gorffennaf  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf? .....	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:	Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal
Hybu gwelliant:	Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da
Dylanwadu ar bolisi a safonau:	Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r Adran Ddeintyddol yng Nghanolfan Adnoddau Blaenafon, Middle Coedcae Road, Blaenafon, Pont-y-pŵl, NP4 9AW, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 29 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y Practis Deintyddol yng Nghanolfan Adnoddau Blaenafon yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd yr ardaloedd clinigol yn cael eu cynnal i safon dda, ac roedd y staff yn darparu gofal da i'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis strwythurau rheoli clir ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion yn dystiolaeth o hyn.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn'.
- Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth er mwyn helpu'r cleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â gofal ac iechyd da y geg.
- Roedd y practis a'r holl gyfleusterau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth ar un llawr mewn adeilad modern. Roedd hyn yn golygu y gellid trin unigolion ag anawsterau symudedd yn y practis.
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roedd trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.
- Roedd dulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r diffyg staff i gyflenwi yn achos absenoldeb deintydd y practis ac ystyried darparu deintydd ategol er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

- Sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.
- Cynnal asesiad risg tân cyfredol.
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn dogfennu'r trefniadau lleol, gan adlewyrchu natur yr adeilad a'r practisau a sefydlwyd ynddo.

Gwnaethom argymhellion eraill ar gyfer gwella hefyd ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad a'u rhestru yn Atodiad C.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae'r Adran Ddeintyddol yng Nghanolfan Adnoddau Blaenafon yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Blaenafon a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, dwy nyrs ddeintyddol a derbynnydd. Mae'r practis hefyd yn darparu gwasanaeth bariatrig<sup>1</sup> un diwrnod y mis gan ddeintydd cymunedol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar ran y GIG.

---

<sup>1</sup> Unigolyn sy'n gyfyngedig o ran ei allu i gael gafael ar iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd maint corfforol, iechyd, symudedd a mynediad amgylcheddol.



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth dda o daflenni am hybu iechyd y geg a thafleini gwybodaeth am driniaethau i gleifion ac roedd ganddo brosesau effeithiol ar waith er mwyn helpu cleifion i ofalu am iechyd y geg.

Roedd y practis a'r holl gyfleusterau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth ar un llawr mewn adeilad modern. Roedd hyn yn golygu y gellid trin unigolion ag anawsterau symudedd yn y practis.

Gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r diffyg staff i gyflenwi yn achos absenoldeb deintydd y practis, ac ystyried darparu deintydd ategol er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r staff yn effeithlon iawn, yn gyfeillgar ac yn dda wrth dawelu eich meddwl*

*“Rwy'n fodlon iawn â'r gofal rwyf wedi'i gael yn y practis hwn. Staff cyfeillgar iawn, sydd bob amser yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus”*

*“Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod eu cymorth.  
Mae'r deintydd yn ofalgar iawn”*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn hapus iawn â'r practis, ond roedd sylwadau rhai o'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Deintydd arall fel nad oes yn rhaid aros mor hir am apwyntiad”*

*“Cynnig mwy o apwyntiadau”*

*“Drwy gael peiriant talu â cherdyn”*

*“Neges destun atgoffa ar gyfer cadw apwyntiadau”*

## **Cadw'n iach**

### **Hybu, diogelu a gwella iechyd**

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd deintyddol yn yr ardal aros, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol. Roedd arwydd 'dim smygu' hefyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros.

## **Gofal ag urddas**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn trin y cleifion mewn ffordd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd desg y dderbynfa mewn ystafell yn ymyl y brif ardal aros agored. Roedd hyn yn rhoi preifatrwydd i'r cleifion gan fod modd cau drws y dderbynfa er mwyn cynnal sgysiau'n breifat, a thalu'r practis. Gwelsom fod galwadau ffôn yn cael eu hateb wrth ddesg y dderbynfa, i ffwrdd o'r brif ardal aros. Roedd ffonau yn y ddwy ddeintyddfa hefyd er mwyn gallu gwneud galwadau ffôn preifat.

Roedd gan y practis ddwy ddeintyddfa a gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn aros ar gau pan oedd cleifion yn cael triniaeth er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd modd cynnal sgysiau preifat gyda chleifion yn y ddeintyddfa.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd gan y bwrdd iechyd ac roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel.

### Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd posteri yn nodi rhestr brisiau ar gyfer ffioedd GIG yn cael eu harddangos yn yr ardal aros a thu ôl i ddesg y dderbynfa. Nid oedd pob gair ar y poster i'w weld yn glir felly roedd yn aneglur i'r cleifion ei ddarllen. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis roi posteri newydd yn eu lle.

Roedd gwybodaeth am y practis hwn ar wefan y bwrdd iechyd, gan gynnwys y cyfeiriad, rhifau cyswllt a map o'i leoliad. Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan. Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd wedi'i harddangos ar hysbysfwrdd yn yr ardal aros. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw gopïau o'r daflen ar gael i'r cleifion fynd ag un gyda nhw. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod copïau o'r daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod un camera teledu cylch cyfyng yn yr ardal aros. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn y practis am y ffordd y mae delweddau o'r camera yn cael eu defnyddio neu eu rheoli. Dywedodd y staff wrthym fod y camera yn rhan o'r adeilad a'i bod yn debygol ei fod yn cael ei reoli gan reolwr yr adeilad. Nid oedd yr arwydd CCTV yn ymyl y camera yn cynnwys enw'r person cyfrifol ac mae angen ychwanegu hyn. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn cadarnhau a oes polisi ar waith ar gyfer defnyddio'r teledu cylch cyfyng a'r ffordd y caiff y delweddau eu defnyddio. Argymhellwn hefyd fod yr arwydd yn ymyl y camera teledu cylch cyfyng yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y manylion cyswllt perthnasol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd arddangos posteri rhestr brisiau newydd er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd darllen y geiriau i gyd.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o'i daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros i gleifion eu darllen neu fynd â nhw gartref yn ôl yr angen.

Dylai'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC a oes polisi ar waith ar gyfer defnyddio'r teledu cylch cyfyng a'r ffordd y caiff y delweddau a gesglir eu defnyddio. Argymhellwn hefyd fod yr arwydd yn ymyl y camera teledu cylch cyfyng yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y manylion cyswllt perthnasol.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd rhywfaint o wybodaeth yn yr ardal aros yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Dyweddodd y staff wrthym y gallent ddiwallu anghenion cleifion â nam ar eu clyw, ac roedd arwydd ar ffenestr y dderbynfa yn dangos bod dolen sain ar gael. Dywedwyd wrthym hefyd am y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno sgwrsio mewn iaith heblaw Saesneg. Roedd y poster a oedd yn hysbysebu'r gwasanaeth hwn wedi'i orchuddio'n wreiddiol, ond symudodd y staff y posteri eraill fel bod y wybodaeth am y llinell iaith i'w gweld y tu ôl i ddesg y dderbynfa.

Gwelsom hysbysiad yn arddangos enwau a gwybodaeth am y tîm deintyddol yn yr ardal aros. Nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol unrhyw aelod o'r tîm. Gwnaethom drafod hyn â'r staff a wnaeth ein sicrhau fod eu rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y broses o gael eu hychwanegu.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion ar lafar am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, neu gall y cleifion ddod i'r practis er mwyn trefnu apwyntiad. Dywedodd y staff wrthym fod dau apwyntiad ar gael bob dydd ar gyfer achosion brys. Os byddai'r ddau apwyntiad hyn wedi'u cymryd, roedd opsiwn i gleifion ddod i'r practis ac aros nes byddai'r deintydd yn rhydd i'w gweld rhwng apwyntiadau eraill.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd hwn wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd yn yr ardal aros, ar y daflen wybodaeth i gleifion, ac ar y llythyr cyngor ar dynnu dannedd a roddir i'r cleifion. Mae tudalen ar wefan y bwrdd iechyd hefyd yn nodi ei gyngor a gwybodaeth y tu allan i oriau, sy'n cynnwys gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau. Dywedodd y staff wrthym fod neges y peiriant ateb hefyd yn cynnwys y wybodaeth hon. Gan fod y wybodaeth hon ar gael mewn nifer o ffyrdd, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd eu bod o'r farn ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'gymharol hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oes unrhyw ddeintydd arall ar gael i weithio pan oedd y deintydd yn sâl neu ar wyliau. O ganlyniad, caiff apwyntiadau cleifion eu haildrefnu, naill ai mewn practis arall neu ar ddyddiad diweddarach. Cafwyd sylwadau gan rai o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dweud y byddent yn hoffi cael deintydd ychwanegol yn y practis er mwyn osgoi tarfu ar eu gofal pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi. Argymhellwn y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r sefyllfa hon ac ystyried darparu deintydd ychwanegol er mwyn osgoi tarfu ar ofal cleifion pan fydd deintydd y practis yn absennol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r diffyg staff i gyflenwi yn achos absenoldeb deintydd y practis, ac ystyried darparu deintydd ategol er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi ynghylch eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion as chanfod anghysondebau o ran trafod opsiynau triniaeth gyda chelfion yn ystod triniaeth, cofnodi cydsyniad gwybodus llafar parhaus, a'r rhesymau dros gyfnodau adalw

cleifion o dan ganllawiau NICE<sup>2</sup>. Roedd anghysondebau hefyd wrth gofnodi diweddariadau hanes meddygol parhaus ar lafar ym mhob apwyntiad, a chofnodi hanes cymdeithasol ac asesiadau risg cleifion yn gyffredinol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd roi sylw i'r angen i wella cofnodion cleifion. Dylid rhoi sylw penodol i'r angen i fynd ati'n gyson i gofnodi trafodaethau am opsiynau triniaeth, cydsyniad llafar parhaus, rhesymau dros adalw cleifion, hanesion meddygol llafar a chofnodi hanesion cymdeithasol ac asesiadau risg cleifion yn gyffredinol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff cofnodion eu cwblhau'n llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

### Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y practis ar un llawr mewn adeilad modern. Roedd toiledau cyhoeddus a rennir ger y brif fynedfa. Roedd y cyfleusterau'n cynnwys ystafell rhieni y gellid ei defnyddio i fwydo ar y fron, ystafell newid babanod a dau doiled. Roedd un o'r toiledau'n ddigon mawr ar gyfer cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd. Roedd gan y toiled hwn ganllawiau ar gyfer cymorth ychwanegol a chordyn tynnu mewn argyfwng. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y ddau doiled. Roedd arwyddion clir i'r toiledau ym mhrif fynedfa'r adeilad.

Roedd toiled staff ar gael yn ymyl ardal aros y practis deintyddol y gellid cael mynediad iddo gan ddefnyddio allwedd electronig.

Dywedwyd wrthym fod rhestr aros o ddwy flynedd a hanner i gleifion gofrestru â'r practis ar hyn o bryd.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

---

<sup>2</sup> Canllawiau Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfnodau adalw deintyddol 2011

Roedd gan y practis weithdrefn cwynion ar waith; fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r staff a hysbysiadau a oedd wedi'u harddangos yn yr ardal aros, roedd yn amlwg bod dwy broses ar waith. Roedd copi o'r weithdrefn cwynion fewnol ar hysbysfwrdd yn yr ardal aros. Ar y wal gyferbyn yn yr ardal aros, roedd gwybodaeth yn ymwneud â phroses cwynion Gweithio i Wella GIG yng Nghymru<sup>3</sup>. Gan fod dwy broses ar gael, roeddem yn teimlo bod hyn yn ddryslyd i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn cynghori'r cleifion i ddefnyddio'r broses fewnol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn hon yn gydnaws â phroses Gweithio i Wella nac yn cynnwys y sefydliadau y gellid cysylltu â nhw pe byddai angen cymorth ar y claf gyda'i bryder. Yn ogystal, roedd yr amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion yn wahanol. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn adolygu ei wybodaeth am gwynion er mwyn sicrhau ei bod yn glir i'r cleifion.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion â'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd yn rhoi holiaduron i'r cleifion bob 6 i 12 mis, a gaiff eu dadansoddi gan adran y cyfarwyddwr clinigol deintyddol. Dywedwyd wrthym hefyd y cynhelir grwpiau ymgysylltu cleifion unwaith bob tri mis, ac y caiff canlyniadau eu bwydo yn ôl i'r practis deintyddol.

Dywedodd y staff wrthym yr adroddir ar ddigwyddiadau gan ddefnyddio system gofnodi Datix<sup>4</sup>. Caiff y rhain wedyn eu dadansoddi gan dîm y cyfarwyddwr clinigol, a chaiff y canlyniadau a'r hyn a ddysgir eu rhannu â'r staff.

Roedd blwch awgrymiadau a sylwadau ar wal yn yr ardal aros ynghyd â chardiau gwag i'r cleifion eu llenwi. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd beiro ar gael i'r cleifion ei defnyddio. Fodd bynnag, pan ddywedom wrth y staff am hyn, cafodd beiro arall ei rhoi yno ar unwaith.

Gofynnem i'r staff a oedd proses ar waith i gasglu sylwadau anffurfiol y cleifion. Dywedwyd wrthym fod sylwadau anffurfiol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan

---

<sup>3</sup> 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

<sup>4</sup>Datix yw'r feddalwedd a ddefnyddir yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i adrodd ar ddigwyddiadau clinigol ac anghlinigol.

uwch-reolwyr a oedd yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn a gwnaethom argymhell y dylid cyflwyno proses ffurfiol ar gyfer casglu sylwadau anffurfiol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r wybodaeth am gwynion er mwyn sicrhau bod y broses yn glir ac yn hawdd ei dilyn, ac yn gydnaws â Gweithio i Wella.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos yr holl wybodaeth am gwynion mewn un ardal o'r ystafell aros, fel bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y wybodaeth hon yn hawdd.

Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu proses ar gyfer casglu sylwadau anffurfiol fel bod modd nodi unrhyw themâu a darparu adborth i'r cleifion.



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Roedd y practis deintyddol mewn cyfleuster meddygol pwrpasol a oedd yn cynnwys meddygfa, fferyllfa, optegydd yn ogystal ag amryw glinigau a gwasanaethau gofal iechyd eraill. Nid oedd y bwrdd iechyd yn berchen ar yr adeilad felly roedd yr holl waith cynnal a chadw yn cael ei drefnu gan reolwr yr adeilad. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd rheolwr yr adeilad ar gael ac felly nid oedd modd i ni weld yr holl wybodaeth roedd ei hangen arnom.

Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau diogelwch tân yn cael eu trefnu a'u cynnal gan reolwr yr adeilad. Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwelsom asesiad risg tân ar gyfer yr adeilad, â dyddiad Awst 2015 arno. Dywedodd y staff wrthym fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ddiweddar, ond ni fu modd iddynt ddarparu copi i ni. Gwnaethom argymhell y dylid unioni hyn, a chael fersiwn gyfredol o'r asesiad tân gan reolwr yr adeilad.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn y practis.

Gwelsom fod diffyg arwyddion clir o'r brif fynedfa i gyfeirio'r cleifion i'r practis deintyddol ac rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei adolygu a'i wella.

Roedd gan y bwrdd iechyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn ymwneud â diogelwch a llesiant y staff yn y gwaith. Fodd bynnag, rhai cyffredinol oedd y rhain ac nid oeddent wedi'u teilwra i'r practis. Argymhellwn y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu teilwra i adlewyrchu'r trefniadau lleol sydd gan y bwrdd iechyd â pherchnogion y safle. Nid oedd unrhyw ddogfen asesu risg amgylcheddol ar gael i ni ei hadolygu ar ddiwrnod yr arolygiad; fodd bynnag, anfonodd y Bwrdd Iechyd Gopi Atom ar ôl yr arolygiad. Roedd dyddiad 2015 ar yr asesiad risg a chafodd ei gwblhau pan oedd y practis wedi'i leoli mewn safle gwahanol. Gwnaethom argymhell bod asesiad risg amgylcheddol diwygiedig yn cael ei gwblhau, a bod copi yn cael ei ddarparu i AGIC.

Gwelsom fod gan y practis bolisi dadebru ar waith. Gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardiobwlmonaidd (CPR)/argyfwng a bod swyddogion cymorth cyntaf wedi'u penodi. Nodwyd bod gan y practis gyffuriau argyfwng ac offer dadebru brys.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r arwyddion i'r adran ddeintyddol, fel bod cleifion ac ymwelwyr yn gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhai o'i bolisiâu a'i weithdrefnau yn adlewyrchu'r trefniadau lleol oherwydd natur yr adeilad a'r practisau a sefydlwyd ynddo.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol cyfredol ar waith.

#### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod mesurau

atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom fod gan y practis ardal ddihalogi ddynodedig yn cynnwys dwy ystafell ar wahân ond wedi'u cysylltu â'i gilydd. Hwn yw'r opsiwn a ffeirir gan ei fod yn rhoi mwy o raniad rhwng offer brwnt sy'n aros i gael eu dihalogi, a'r offerynnau sydd wedi'u glanhau neu eu sterileiddio sydd i'w rhoi yn ôl yn yr hambyrddau/pecynnau neu gynhwysyddion er mwyn eu defnyddio. Mae un ystafell yn benodol ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud ag offer brwnt; glanhau ac archwilio offer yn y lle cyntaf. Mae ystafell ar wahân ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud ag offer glân; archwilio, sterileiddio a lapio offer. Gwnaethom argymhell y dylai'r awtoclaf a'r chwyddwydr wedi'i oleuo gael eu symud i'r ystafell lân ddynodedig er mwyn cydymffurfio â'r gweithgareddau glân, h.y. archwilio, sterileiddio a lapio/storio.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod archwiliad rheoli heintiau blynyddol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Yn ogystal, gwelsom fod y practis yn defnyddio adnodd archwilio arsylwi ar gyfer gwella ansawdd o ran rheoli hylendid sylfaenol, heintiau a dihalogi.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn biniau wedi'u cloi o fewn stordy wedi'i gloi y tu allan, a bod trefniadau ar waith er mwyn cael gwared arno'n ddiogel. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer casglu gwastraff nad yw'n beryglus.

Nodwyd gennym felly fod y practis yn gweithio'n unol â pholisi rheoli heintiau'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod cyfleusterau hylendid dwylo priodol ac effeithiol ar waith.

Roedd trefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio â brechiadau ar gyfer y staff ac unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ar gyfer y staff clinigol a oedd yn cadarnhau statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis symud yr awtoclaf a'r chwyddwydr wedi'i oleuo i'r ystafell lân er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Gwelwyd bod cyffuriau brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried cadw cyffuriau brys a siartiau llif triniaethau mewn ffolderi unigol. Byddai hyn yn golygu y gallai'r staff gael gafael ar gyffuriau brys penodol yn gyflym.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd bolisi diogelu i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol pwy oedd y swyddog diogelu arweiniol i gysylltu ag ef yn y bwrdd iechyd. Roedd y staff yn gallu troi at dîm diogelu'r bwrdd iechyd ar gyfer adrodd, cymorth a hyfforddiant. Roedd siart llif ar gael a oedd yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethom nodi hefyd fod yr holl staff perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff yn y practis dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'u rheolwr llinell a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny. Dywedodd y staff wrthym am broses a fydd yn cael ei chyflwyno'n fuan, lle bydd person penodol ar gael i staff droi ato gydag unrhyw bryderon.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y deintyddfeydd a gweld bod cyfarpar priodol ynddynt er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod y deintyddfeydd wedi cael eu cynllunio a'u trefnu er mwyn helpu'r tîm i weithio'n effeithiol ac roeddent yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ìoneiddio hefyd.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd amrywiaeth o archwiliadau wedi cael eu cynnal i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Nodwyd bod archwiliadau wedi cael eu cynnal ar gadw cofnodion a rhagnodi gwrthfotigau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried ceisio cyngor gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn nodi archwiliadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Dylai'r bwrdd iechyd geisio cyngor gan AaGIC i nodi archwiliadau ychwanegol a allai helpu'r practis i ganolbwyntio ar wella'r gwasanaeth yn barhaus.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol yn cymryd rhan mewn adolygiadau gan gymheiriaid yn rheolaidd sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion. Nodwyd bod archwiliad cadw cofnodion yn cael ei gynnal hefyd.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion presennol a blaenorol yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

### **Cadw cofnodion**

Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o safon dda, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion ac argymell meysydd lle mae angen gwella'r cofnodion. Gwelom anghysondebau o ran cofnodi bod opsiynau triniaeth wedi cael eu trafod â'r cleifion yn ystod triniaeth, cofnodi cydsyniad gwybodus llafar parhaus, a chofnodi'r rhesymau dros gyfnodau adalw cleifion o dan ganllawiau NICE<sup>5</sup>. Roedd anghysondebau hefyd wrth gofnodi diweddariadau hanes meddygol parhaus ar lafar ym mhob apwyntiad, a chofnodi hanes cymdeithasol ac asesiadau risg cleifion yn gyffredinol. Gwnaed argymhelliad yn hyn o beth yn gynharach yn yr adroddiad.

Mae'r practis wedi dechrau cynllun peilot yn defnyddio ffurflenni asesu ACORN. Ystyrir bod hyn yn arfer da gan y bydd yn sicrhau bod hanesion cymdeithasol cleifion, manylion sgrinio canser y geg ac asesiadau risg yn cael eu cofnodi.

---

<sup>5</sup> Canllawiau Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfnodau adalw deintyddol 2011

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis ac roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion yn dda.

Roedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis strwythurau rheoli clir ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am y gofal a ddarperir i gleifion, gyda'u rheolwr llinell.

Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau drwy dudalen mewnwyd y bwrdd iechyd. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, polisïau cyffredinol y bwrdd iechyd oedd rhai o'r polisïau a byddent yn cael budd o gael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu trefniadau ac arferion lleol.

### Staff ac adnoddau

#### Y Gweithlu

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol.

Gwelsom fod nifer o bolisiau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys y polisi recriwtio staff, y polisi cyfle cyfartal a'r polisi chwythu'r chwiban.

Caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi eu cynnal yn ganolog gan adran adnoddau dynol y bwrdd iechyd. Gwnaethom adolygu ffeiliau staff unigol yn y practis a oedd yn cynnwys tystiolaeth o'u tystysgrifau hyfforddiant, eu contractau cyflogaeth a'u disgrifiadau swydd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff yn cael arfarniadau blynyddol a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd y system yn dangos bod cydymffurfiaeth y staff o ran eu hyfforddiant yn 100%. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein a'u bod yn gallu trafod unrhyw ofynion hyfforddiant ychwanegol â'u rheolwr llinell.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth o hyn ar ffurf cofnodion y cyfarfodydd.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau ar ei swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i unigolion gyflwyno datganiad hunanddatgelu os oedd unrhyw newid yn eu hamgylchiadau.



## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:**        **Insert name**

**Dyddiad arolygu:** **Insert date**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Yr Adran Ddeintyddol, Canolfan Adnoddau Blaenafon

**Dyddiad arolygu:** 29 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd arddangos poster i rhestr brisiau newydd er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd darllen y geiriau i gyd.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Rhodddwyd poster i rhestr brisiau newydd yn ardal y dderbynfa ac yn yr ystafell aros. Maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg.	Bogdan Dutulescu Deintydd	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o'i daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros i gleifion eu darllen neu fynd â nhw gartref yn ôl yr angen.		Mae copïau o daflenni gwybodaeth y practis wedi cael eu hargraffu a'u hychwanegu at y taflenni gwybodaeth i gleifion a arddangosir yn yr ystafell aros.	Bogdan Dutulescu Deintydd	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC a oes polisi ar waith ar gyfer defnyddio'r teledu cylch cyfyng a'r ffordd y caiff y delweddau a gesglir eu defnyddio. Argymhellwn hefyd fod yr arwydd yn ymyl y camera teledu cylch cyfyng yn cael ei		Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan bolisi teledu cylch cyfyng.  Dim ond rheolwr adeilad Blaenafon a all weld y delweddau a gesglir, a hynny	Liz Tantrum Rheolwr Cyfleusterau Gwasanaethau	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddiweddaru i gynnwys y manylion cyswllt perthnasol.		mewn ystafell ddiogel. Cânt eu harbed am 30 munud, ac yna'u dileu.  Lluniwyd hysbysiadau am y defnydd o deledu cylch cyfyng a'u rhoi yn ymyl y camera teledu cylch cyfyng. Mae polisi teledu cylch cyfyng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i amgáu.	Deintyddol Cymunedol	
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r diffyg staff i gyflenwi yn achos absenoldeb deintydd y practis, ac ystyried darparu deintydd ategol er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.	5.1 Mynediad amserol	Mae gwasanaeth GDS Abertyleri a Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (CDS) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu apwyntiadau deintyddol brys ar ran Canolfan Iechyd Blaenafon pan fydd y deintydd ar wyliau blyneddol neu absenoldeb salwch byrdymor. Mae'r CDS yn gallu gwneud cais am ganiatâd i gyflenwi yn achos absenoldeb salwch hirdymor.	Vicki Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd roi sylw i'r angen i wella cofnodion cleifion. Dylid rhoi sylw penodol i'r angen i fynd ati'n gyson i gofnodi trafodaethau am opsiynau triniaeth, cydsyniad llafar parhaus, rhesymau dros adalw cleifion, hanesion	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	Bydd y Deintydd ym Mlaenafon yn dilyn hyfforddiant ar gadw cofnodion ar-lein neu mewn dosbarth. Bydd tîm QPC y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cynnig cymorth i gwblhau prosiect Gwella Ansawdd er mwyn gwella ei drefniadau	Bogdan Dutulescu Deintydd	Dechrau ar 12 Medi 2019 tan Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>meddygol llafar a chofnodi hanesion cymdeithasol ac asesiadau risg cleifion yn gyffredinol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff cofnodion eu cwblhau'n llawn yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p>		<p>cadw cofnodion, cofnodi trafodaethau am opsiynau cynllunio triniaethau, sicrhau y cofnodir cydsyniad llafar a'r hanes cymdeithasol diweddedig a chofnodi asesiadau risg cleifion. Y canlyniadau</p>		
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r wybodaeth am gwynion er mwyn sicrhau bod y broses yn glir ac yn hawdd ei dilyn, ac yn gydnaws â Gweithio i Wella.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos yr holl wybodaeth am gwynion mewn un ardal o'r ystafell aros, fel bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y wybodaeth hon yn hawdd.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu proses ar gyfer casglu sylwadau anffurfiol fel bod modd nodi unrhyw themâu a darparu adborth i'r cleifion.</p>	<p>6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth</p>	<p>Mae'r wybodaeth am y weithdrefn gwynion wedi cael ei hadolygu a'i symud i un ardal yn yr ystafell aros fel bod modd ei gweld yn well ac er mwyn rhoi mwy o eglurder ar gyfer pryderon.</p> <p>Fel uchod.</p> <p>Ar wal yr ystafell aros, mae poster wedi'i lamineiddio sy'n gwahodd y cleifion i wneud sylwadau am y gwasanaeth drwy gysylltu â Vicki Jones, Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, yn ogystal â blwch awgrymiadau. Mae swyddfa ganolog y</p>	<p>Bogdan Dutulescu Deintydd</p> <p>Vicki Jones Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedyn yn cofnodi'r sylwadau hynny ac yn cefnogi'r practis i weithredu arnynt a'u trafod mewn cyfarfodydd clinig. Cânt hefyd eu hadrodd i Dîm Busnes Deintyddol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn ei gyfarfod bob 6 wythnos. Os yw'n briodol, caiff y sylwadau eu bwydo'n ôl yn anhysbys i staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol er mwyn gwella ansawdd drwy fwletin misol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a/neu yng nghyfarfod holl staff y Gwasanaeth bob chwarter. Os bydd y sylwadau'n peri pryder, caiff y rhain wedyn eu prosesu drwy broses Gweithio i Wella, lle cânt eu cofnodi ar Datix (system adrodd digwyddiadau) a lle byddant yn dilyn algorithm Gweithio i Wella ar gyfer cwynion ffurfiol neu anffurfiol o fewn yr amserlen ofynnol. Cysylltir â'r claf/rhiant/gofalwr a wnaeth y sylwadau bob amser fel bod eu barn a'u harsylwadau wrth wraidd y gwelliannau ansawdd a wneir.</p>		



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r arwyddion i'r adran ddeintyddol, fel bod cleifion ac ymwelwyr yn gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhai o'i bolisiâu a'i weithdrefnau yn adlewyrchu'r trefniadau lleol oherwydd natur yr adeilad a'r practisau a sefydlwyd ynddo.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol cyfredol ar waith.</p>	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Ceir asesiad risg tân cyffredinol ar gyfer adeilad Blaenafon sy'n berchen i sefydliad mewn sector arall. Mae swyddog tân Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cwblhau asesiad risg adrannol lleol ar gyfer y swît ddeintyddol ac mae'r adroddiad wedi'i atodi.</p> <p>Roedd yr arwyddion i'r adran wedi'u gorchuddio gan fyrddau arddangos adran arall, sydd wedi cael eu symud erbyn hyn.</p> <p>Hyd y gellir, bydd y clinig deintyddol yn adolygu ac yn cynhyrchu polisiâu perthnasol sydd wedi'u teilwra i bractis Blaenafon er mwyn sicrhau mynediad haws i bawb. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn annog y staff i beidio ag argraffu polisiâu.</p> <p>Mae'r asesiad risg amgylcheddol eisoes wedi'i anfon i AGIC.</p>	<p>Liz Tantrum Rheolwr Cyfleusterau</p> <p>Bogdan Dutulescu</p> <p>Deintydd Liz Tantrum Rheolwr Cyfleusterau</p> <p>Liz Tantrum Rheolwr Cyfleusterau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Tachwedd 2019</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis symud yr awtoclaf a'r chwyddwydr wedi'i oleuo i'r ystafell lân er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r awtoclaf a'r chwyddwydr wedi'i oleuo wedi cael eu symud i'r ystafell ddihalogi lân.	Liz Tantrum Rheolwr Cyfleusterau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd geisio cyngor gan AaGIC i nodi archwiliadau ychwanegol a allai helpu'r practis i ganolbwyntio ar wella'r gwasanaeth yn barhaus.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r deintydd yn cwblhau hunanarchwiliadau blynyddol yn ogystal â chymryd rhan yn archwiliadau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol. Mae hefyd yn mynychu cyfarfodydd grŵp cymheiriaid chwarterol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol sy'n datblygu prosiectau gwella ansawdd, ac sy'n rhannu arfer da a dysgu myfyriol. Bydd archwiliad AaGIC yn dechrau ym mis Ionawr 2020 yn unol ag argymhelliad arolygydd AGIC.	Bogdan Dutulescu Deintydd	Cychwyn ym mis Ionawr 2020
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Vicki Jones**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol**

**Dyddiad: 18 Medi 2019**